OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 202

## Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

## RHAN 3

### Rhedeg Practis Deintyddol Preifat

### PENNOD 1

### Ansawdd y Gwasanaethau a Ddarperir

**Preifatrwydd, urddas a pherthnasau**

**15.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod y practis deintyddol preifat yn cael ei redeg mewn ffordd sy'n parchu preifatrwydd ac urddas cleifion.

(2) Wrth wneud y trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), rhaid i'r person cofrestredig roi sylw i'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010(**1**).

(3) Rhaid i'r darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig (os oes un) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y practis deintyddol preifat yn cael ei redeg ar sail perthnasau personol a phroffesiynol da—

(a) rhwng y naill a'r llall;

(b) rhyngddynt hwy ac aelodau'r staff; ac

(c) rhwng pob un sy'n cael ei gyflogi yn, neu at ddibenion, y practis deintyddol preifat a'r cleifion.

(**1**) 2010 p. 15. Mae'r nodweddion gwarchodedig wedi eu nodi ym Mhennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.